# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 11fed Chwefror 2019

Presennol: Sian Parri, John Davies, Gareth Jones, Alan Hughes, Medwyn Jones, Richard Williams, Seimon Glyn, Humphrey Williams
Ymddiheuriadu: Henry Hughes

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r Cofnodion**
   a/ Prynodd y Clerc gliniadur newydd, y gost yn £408.00-pasiwyd i dalu'r gost yn ol i'r Clerc.
   Derbyniodd y Clerc hyfforddiant gan Simon – bydd y Clerc yn rhoi cofnodion misol ar y safle we o hyn ymlaen.

   b/ Grant AHNE – cafwyd caniatad gan yr Eglwys i'r Cyngor roi giat newydd ar lwybyr y Garn. Deallwyd hefyd fod angen gael dau neu tri pris am giat newydd a hysbysfwrdd.
   Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd oedi cyn cyflwyno'r cais am grant – o ystyried mai nid eiddo'r Cyngor Cymuned yw'r llwybyr a'r giat, a bod y Cyngor Sir ar un cyfnod yn cymeryd cyfrifoldeb drosti, pasiwyd i'r Clerc gysylltu ac Adran Llwybrau'r Cyngor Sir, a chael mwy o wybodaeth ynglyn a phwy yn hollol ddylid adnewyddu'r giat.

4. **Gohebiaethau:**
   a/Elusen Ambiwlans Awyr – derbynwyd wahoddiad i'r Swyddfa Ambiwlans Awyr Cymru ym Maes Awyr Dinas Dinlle ar Chwefror 20fed – cafodd pawb gyfle i ddarllen y llythyr.

b/ Clwb Ffermwyr Ifanc Eryri – derbynwyd lythyr gan y mudiad yn gofyn am gyfraniad – penderfynwyd i ystyried y cais mis Mawrth.

c/ Ymddiriedolaeth Gofalwyr – derbynwyd lythyr gan yr elusen yn gofyn am gyfraniad – penderfynwyd i ystyried y cais mis Mawrth.

ch/Cynnal Llwybrau Cyhoeddus Tudweiliog- Derbynwyd ebost yn holi os oedd y Cyngor Cymuned am barhau i fod yn rhan o'r trefniant yn 2019/20 gan dderbyn ad-daliad o £325.60 gan y Cyngor Sir am dorri'r llwybrau. Pasiwyd fod y Cyngor Cymuned yn hapus i barhau i fod yn rhan o'r trefniant.

d/Gorchymyn Diwygio Cyngor Gwynedd Llwybyr Troed rhif 71 Derbynwyd copi o'r gorchymyn fel wedi ei gadarnhau ynglyn a Llwybyr Troed PenCaerau Garnfadryn.

dd/Arolwg Cyhoeddus Strategaeth Ariannol Cyngor Gwynedd- Yn dilyn arolwg a wnaeth y Cyngor Sir er mwyn deall "Pa Wasanaethau sy'n bwysig i chi?', penderfynwyd barau i Warchod Gofal ac Addysg, gwarchod cyllideb Trafnidiaeth Gyhoeddus a cyfyngu toriadau sy'n effeithio ar y Sector Busnes. Mae eto angen arbed £4.8 miliwn – dau opsiwn sy'n agored:- Cynyddu Treth Cyngor neu gwireddu mwy o arbedion ariannol. Gofyna'r Cyngor Sir am farn y cyhoedd, penderfynwyd fod y Clerc yn ebostio'r Cynghorwyr Cymuned gyda linc i'r holiadur fel bod pawb yn cael cyfle i leisio barn.

e/Cyhoeddiad Archwilydd Cyffredinol ymwneud a Chynghorau Cymuned a Thref – Penderfynwyd fod y clerc yn anfon yr ebost ymlaen i'r Cynghorwyd Cymuned er mwyn iddynt gael cyfle i'w ddarllen.

f/Cais C18/1165/46/RC diddymu cytundeb 106
Cefnogi

ff/Cais C18/1168/46/LL Tyddyn Sander Tudweiliog
Cefnogi

g/Cais C19/0112/46/LL Ty'n Simdde Dinas
Cefnogi

5. **Unrhyw fater arall:**

a/Lleiswyd pryder fod presenoldeb anaml Robin Williams Is Gadeirydd yn golygu nad ydyw yn dod i ddeall anghenion a chyfrifoldeb y swydd o fod yn Gadeirydd.

b/Holodd Seimon Glyn os oedd gan y Cyngor Cymuned ddyletswydd i roi arweiniad i'r cais o geisio cael Canolfan well i bentref Tudweiliog. Yn dilyn trafodaeth, pasiwyd i aros a gweld os oes gwir ddymuniad ac angen gan y pentrefwyr am hyn.

**Cynhelir Cyfarfod Nesaf ar 11fed Mawrth 2019 yng Nghanolfan Tudweiliog am 7.15 o'r gloch.**